RHONDDA CYNON TAF

# RHONDDA CYNON TAF
## GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION YR HINSAWDD

Cofnodion o gyfarfod rhithwir o Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd Dydd Llun, 16 Tachwedd 2020 am 2pm

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd S Belzak

### Cynrychiolwyr Allanol a wahoddwyd i'r Grŵp Llywio

Mr C Harries – Cyfeillion y Ddaear
Ms M Newton – Grŵp Llywio Skyline

### Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Lawson, Rheolwr Cyflawniad
Mr M Crumbie, Pennaeth Cyflenwi – Materion Caffael
Mr R Wistow, Ecolegydd

**1 Croeso'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Grŵp Llywio ar Faterion yr Hinsawdd, a chydnabu na fu cyfarfod ers cryn amser oherwydd y pandemig byd-eang. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i roi sicrwydd Grŵp Llywio, er gwaethaf yr amgylchiadau anodd, bod swyddogion wedi cynnal momentwm o ran yr agenda Newid Hinsawdd ac uchelgais y Cyngor i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris a'r cynrychiolydd Croeso i'n Coedwig.

**2 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**3 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2020 yn rhai cywir.

## 4 Asedau Naturiol

Rhoddodd Ecolegydd y Cyngor adroddiad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd, a oedd yn darparu gwybodaeth ar faterion yn ymwneud ag Asedau Natur a'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr wybodaeth ac roedd ganddo ddiddordeb i nodi'r cyfleoedd i wneud y mwyaf o storio carbon trwy'r asedau naturiol, gan nodi bod RhCT yn ddigon ffodus i gael llu o fioamrywiaeth ar ei stepen drws.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd am Grŵp Cymunedol lleol, a blannodd 5000 o fylbiau yn lleol yn ystod y flwyddyn flaenorol. Esboniodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Grŵp wedi nodi buddion plannu'r bylbiau ac wedi adfywio'r ddaear yn llwyddiannus i ddod â'r blodau gwyllt naturiol, a oedd gynt yn segur, yn eu holau. Serch hynny, soniodd yr Aelod o'r Cabinet am bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw goed a blannwyd mewn ardaloedd penodol yn hylaw ac nad ydynt yn effeithio ar y cwrs dŵr. Aeth y Dirprwy Arweinydd ymlaen i bwysleisio'r angen i ymgysylltu â'r gymuned a gyda ffermwyr lleol.

Adleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth sylwadau'r Dirprwy Arweinydd o ran cyfathrebu ac ymgysylltu â'r gymuned. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi bod adrannau mewnol y Cyngor, fel Iechyd yr Amgylchedd, yr adran Gynllunio a'r adran Addysg, wedi cydweithio'n dda.

Roedd gan un Aelod ddiddordeb arbennig yn adfywiad naturiol y coetir. Cododd yr Aelod bryderon mewn perthynas â'r difrod a achoswyd i goed ifainc gan danau mynydd a holodd a oedd mesurau lliniaru ar waith i'w hatal. Dywedodd y swyddog wrth yr Aelod am y dull gweithredu 'Healthy Hillsides Project', sy'n sicrhau rheoli cadwraeth/pori cadwraeth mewn ardaloedd nad ydynt yn destun problemau tanau gwyllt, er mwyn cynnal y rhedyn a hyrwyddo blodau gwyllt, bywyd gwyllt ac adfywio coetir.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd addysg a soniodd am yr ymgyrchoedd proffil uchel sy'n cynnwys y gwasanaeth tân a'r heddlu, a oedd yn ceisio addysgu pobl ifanc am bwysigrwydd llethrau'r bryniau a'i fywyd gwyllt. Ar ben hynny, roedd y Cadeirydd yn falch o nodi bod potensial i Swyddog Graddedig a Phrentis weithio ochr yn ochr ag Ecolegydd y Cyngor.

Adleisiodd y Cynrychiolydd Allanol sylwadau cynharach mewn perthynas â chynnwys y gymuned a chwestiynu pa ardaloedd yn RhCT a nodwyd ar gyfer gerddi glaw. Dywedodd y swyddog mai'r ardd law a ddatblygwyd ar Mill Street, Pontypridd oedd y cyntaf i gael ei nodi fel safle problemus a'i chymeradwyo i'w hariannu. Dywedodd y swyddog y byddai Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn i ddod i ddyrannu cyllid ar gyfer Gwyrddni Trefol ac, o'r herwydd, byddai safleoedd newydd yn cael eu nodi. Esboniwyd hefyd bod swyddogion yn gyfrifol am ymgorffori seilwaith gwyrdd yn y cynlluniau nodweddion draenio cynaliadwy.

Cydnabu'r Cynrychiolydd Allanol y gwaith a wnaed i wneud y mwyaf o storio carbon naturiol trwy adfer corsydd mawn ar dir cyhoeddus a holodd a oedd cynlluniau tebyg ar gyfer tir dan berchnogaeth breifat. Dywedodd y swyddog fod cyngor a chefnogaeth yn cael ei ddarparu i berchnogion tir preifat trwy'r Cynllun

Gweithredu Bioamrywiaeth a'r Cynllun Natur Lleol newydd ond oherwydd costau a diffyg cyllid, ni allai'r Awdurdod Lleol gyflawni'r gwaith. Yn ogystal, hysbysodd y swyddog y Grŵp bod y ffocws ar dir cyhoeddus yn rhoi sicrwydd o gyflawni canlyniadau ac arfer gorau.

Soniodd Aelod arall am y draeniad yn Nhomen Albion, Cilfynydd, a oedd wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf ac o ganlyniad, wedi effeithio ar y tir fferm i'r gogledd. Cwestiynodd yr Aelod a fyddai'n briodol cysylltu â ffermwyr lleol i'w cynnwys mewn unrhyw gynllun o'r fath. Cydnabu'r swyddog fod llawer o safleoedd wedi mynd yn wlypach dros y blynyddoedd, a hynny o bosibl oherwydd y newid yn yr hinsawdd. O ran gweithio gyda pherchnogion tir trydydd parti, awgrymodd y swyddog y dylai'r Awdurdod Lleol brofi ei fodel yn gyntaf ar dir sy'n eiddo cyhoeddus cyn symud ymlaen.

Yn dilyn nifer y cwestiynau mewn perthynas â draenio, argymhellodd y Cadeirydd y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol o Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd, sy'n darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r gwaith a wneir yn y dalgylchoedd dŵr, lliniaru, cylfatiau, defnydd tir, plannu coed a pherthynas yr Awdurdod Lleol â CNC.

Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai gomisiynu adolygiad i'w gynnal gan Gyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor ac Ecolegydd y Cyngor i nodi'r safleoedd hynny sydd fwyaf addas ar gyfer adfer mawnog ar dir sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol a CNC. Byddai'r adolygiad yn cynnwys nodi'r meysydd blaenoriaeth a'r goblygiadau cost, er mwyn cyflwyno adroddiad yn ôl i'r Grŵp Llywio o'r canfyddiadau i'w ystyried. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd cynllunio ymlaen llaw, pe bai'r Cabinet yn cytuno i neilltuo arian o fewn y gyllideb Gyfalaf.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd**

1. Wneud sylwadau ar y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn;
2. Bod Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor ac Ecolegydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o'r tir sy'n eiddo cyhoeddus, i nodi'r safleoedd hynny sydd fwyaf addas ar gyfer adfer mawnog a'r goblygiadau cost; gydag adroddiad wedi'i gyflwyno yn ôl i'r Grŵp Llywio ei drafod.
3. Bod adborth a sylwadau Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd yn cael eu hadrodd i'r Cabinet.

**5 Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol - Eu Polisïau a'u hymrwymiadau i sicrhau bod Isadeiledd Tai, Trafnidiaeth a Busnes yn lleihau eu Hôl-troed Carbon.**

Darparodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu'r adroddiad i'r Grŵp Llywio, a oedd yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol i'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl) fynd i'r afael â hwy o ran polisïau ac ymrwymiadau i leihau ein hôl troed carbon; a'r cyfleoedd a fyddai'n cyflwyno'u hunain wrth baratoi a llunio'r cynlluniau hyn, (yn enwedig o safbwynt y CDLl), i ehangu ar y gofynion safonol hyn o safbwynt RhCT.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Adran 6 yr adroddiad ac eglurodd fod nifer o feysydd y gellir ymchwilio ymhellach iddynt mewn perthynas â Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon; dylid hefyd ystyried cynnwys y meysydd hyn yn yr adroddiad. Awgrymodd y Cyfarwyddwr y cwestiynau canlynol i'w hystyried ymhellach gan y Grŵp:

- Pa ganran o leoedd parcio ceir ddylai fod â phwyntiau gwefru mewn

datblygiadau dibreswyl newydd?
- A ddylai fod polisi tebyg ar gyfer datblygiadau preswyl newydd?
- A ddylai pob cartref newydd yn RhCT fod yn adeiladau carbon sero?
- Beth yw rôl ucheldiroedd RhCT wrth frwydro yn erbyn Newid Hinsawdd?
- Beth yw barn y grŵp ar ddwysedd y datblygiad o amgylch nodau'r Metro a pholisïau di-gar ar ddatblygiadau newydd?

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad a chydnabod faint o waith a wnaed i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Cydnabu'r Cadeirydd uchelgais Llywodraeth Cymru i Gymru ddod yn Net Sero erbyn 2050 a'r mentrau cadarnhaol eraill fel Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Metro De Cymru, teithio cynaliadwy a ffyrdd cynaliadwy o greu cyflogaeth.

Cwestiynodd y Cynrychiolydd Allanol p'un ai’r bwriad oedd datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd ehangach ar gyfer yr Awdurdod Lleol, a allai gyd-fynd â gwaith y CDLl diwygiedig. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai Strategaeth Newid Hinsawdd yn cael ei datblygu, yn dilyn ystyriaeth y Grŵp o amrywiol adroddiadau allweddol mewn perthynas â phynciau fel trafnidiaeth, tai, bioamrywiaeth, plastigau ac ynni. Roedd y Prif Weithredwr yn gobeithio cyflwyno drafft cychwynnol y Strategaeth i'r Grŵp Llywio yn y Flwyddyn Newydd yn barod i ymgysylltu â'r gymuned ehangach.

Esboniodd y Cyfarwyddwr y byddai'r CDLl yn gweithredu fel mynegiant defnydd tir o ddyheadau'r Cyngor, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon, sy'n sicrhau bod elfennau allweddol yn cael eu dyrannu. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at argymhelliad y Grŵp am Fawndiroedd yn yr adroddiad blaenorol ar Asedau Natur ac eglurodd y gellid dyrannu'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y CDLl diwygiedig.

Hysbysodd y Dirprwy Arweinydd y Grŵp Llywio bod pwyntiau gwefru cerbydau trydanol wedi'u gosod ym maes parcio Tesco a nododd y gallai'r CDLl weithredu fel dogfen berswadiol i ddatblygwyr ystyried opsiynau ecogyfeillgar yn y dyfodol.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod Rhanbarth y Ddinas wedi cytuno ar gyllid ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydanol ar gyfer gwasanaethau tacsi a chludiant yn y lle cyntaf; a nododd fod swyddogion yn cynnal ymarfer i edrych ar feysydd parcio'r Cyngor i ystyried unrhyw gyfleoedd i osod pwyntiau gwefru.

Nid oedd un Aelod yn cytuno â'r rhagdybiaeth y gellid cynnal y ffordd bresennol o fyw, trwy newid i drydan yn unig, ac roedd o'r farn nad oedd digon o ynni ar gael i bweru'r fflyd gyfredol o gerbydau. Siaradodd yr Aelod am y gost ynni ar gyfartaledd o ran cynhyrchu car, yn ychwanegol at y gost barhaus o ran ynni i gynnal y cerbyd.

Cydnabu’r Cynrychiolydd Allanol farn yr Aelod ac ychwanegodd y dylid rhoi pwyslais ehangach ar wella trafnidiaeth gyhoeddus a lleihau’r angen i deithio.

Nododd un Aelod gyflymder datblygu technoleg a theimlai y byddai'n ddoeth symud ymlaen ar gyflymder cyson.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**
1. I gyflwyno sylwadau ar y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn, ac yn benodol y pwyntiau trafod a nodir ym mharagraffau 6.9 i 6.15; a
2. Bod adborth a sylwadau'r Grŵp Llywio yn cael eu hadrodd i'r Cabinet i'w

hystyried

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber y cyfarfod.)

**6 Lleihau'r defnydd o blastigau un-tro yn holl gontractau ac adeiladau'r Cyngor**

Rhoddodd y Pennaeth Cyflawni – Materion Caffael drosolwg a diweddariad i aelodau'r grŵp yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd ym mis Rhagfyr 2019.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Grŵp Llywio am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r archwiliad manwl ar y categorïau gwariant hynny lle mae plastigau un-tro'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd; a Chynllun Gweithredu sydd â'r nod o leihau neu ddileu'r defnydd o blastigau un-tro (lle bo hynny'n ymarferol) ym mhob rhan o'r Cyngor erbyn diwedd 2020.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad a chafodd ei galonogi gan ei fomentwm, er bod cynnydd wedi'i rwystro ychydig yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd Covid-19. Nododd y Cadeirydd fod y Cynllun Gweithredu yn ceisio nodi'r meysydd hynny lle mae angen mwy o waith archwilio am ddefnyddio plastigau mewn PPE, sy'n faes newydd sydd wedi deillio o effaith Covid-19.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth am bwysigrwydd cyflwyno'r argymhellion y manylir arnynt yn y cynllun gweithredu i sicrhau bod trigolion a phobl ifainc RhCT yn effro i'r ymrwymiad.

Cwestiynodd un Aelod y dull ar gyfer ysgolion a ph'un a fyddai plant yn cael eu gwahardd i ddefnyddio plastig. Dywedodd y swyddog mai'r uchelgais oedd siarad â chyflenwyr arlwyo a nodi lle mae'r plastig yn cael ei ddefnyddio, er mwyn nodi dewisiadau amgen addas.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Cydnabod yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ers yr adroddiad blaenorol i'r Grŵp, ar ein gallu i roi ar waith a gweithredu canlyniadau diriaethol sy'n anelu at leihau'r defnydd o blastigau un defnydd o fewn yr amserlen a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol.
2. Cytuno ar y cynllun gweithredu a ddarperir yn Atodiad A sy'n nodi'r trefniadau i ddileu / lleihau'r defnydd o blastigau un defnydd ar draws y Cyngor; a
3. Nodi'r bwriad i gael gwared ar yr holl blastigau un defnydd o gyfleusterau arlwyo'r Cyngor a'r Ysgol erbyn 31 Mawrth 2021 gyda dewis arall sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

**7 Caffael Cyflenwadau a Gwasanaethau yn Lleol**

Roddodd y Pennaeth Materion Caffael diweddariad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd ar y gwaith sydd ar y gweill er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn elwa ar ei drefniadau caffael yn y modd gorau posibl.

Atgoffodd y swyddog y Grŵp Llywio y cytunwyd yn flaenorol y byddai adolygiad manwl o 50 o gyflenwr gorau'r Cyngor (wedi'i leoli y tu allan i RCT) yn cael ei gynnal. Esboniwyd bod y data angenrheidiol wedi'i baratoi a bod yr arolwg wedi'i lunio ond oherwydd y cyfyngiadau symud ledled y wlad, nid oedd yr adolygiad wedi'i gynnal. O'r herwydd, ystyriwyd bellach y byddai'n well treulio'r amser yn edrych tua'r dyfodol a sicrhau bod y canlyniadau cadarnhaol wrth gontractio yn cael eu hystyried yn llawn wrth baratoi dogfennau tendro yn y dyfodol.

Hysbysodd y swyddog y Grŵp o'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig a rhoddodd fanylion am sut y gallai'r Cyngor wneud ei gontractau yn fwy hygyrch i fusnesau. Hysbyswyd yr aelodau bod y Cyngor yn awyddus i drafod defnyddio busnesau bach a chanolig lleol, a'i fwriad i nodi cyfleoedd posibl i'w cyflwyno i'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad a chydnabu bwysigrwydd cefnogi busnesau lleol yn ystod cyfnod mor heriol. Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi bod llawer o fusnesau wedi addasu i ddiwallu'r newid mewn anghenion trwy gydol y cyfnod.

Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi'r dull contract rhanedig y manylir arno yn Adran 7 yr adroddiad, a fyddai'n lledaenu'r buddion ar draws busnesau lleol. O safbwynt newid yn yr hinsawdd, roedd y Cadeirydd yn hapus i gefnogi busnesau bach a chanolig yn y Fwrdeistref, yn enwedig o ran cadwyni cyflenwi i sicrhau nad yw cynhyrchion yn teithio pellteroedd mawr, a fyddai'n lleihau'r ôl troed carbon ac yn tyfu'r economi leol.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth at y trac athletau yn Aberdâr, lle'r oedd mwyafrif y gweithlu o fewn radiws o 20 milltir ar y mwyaf, a greodd berchnogaeth leol a chymunedol.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Cytuno â dull y Cyngor o hysbysebu ei dendrau yn gliriach gyda'r farchnad leol, ac i'r Gwasanaeth Caffael herio pob tendr yn gynnar gyda golwg ar sefydlu a fyddai lotio priodol yn berthnasol; a
2. Bod diweddariad ynglŷn â'r camau yma yn cael eu cyflwyno yn ôl i'r Grŵp yn y dyfodol.

## 8 Cynhyrchu Ynni a Materion Cysylltiedig

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor a Phennaeth Rheoli Prosiectau Ynni yr wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Llywio'r Cabinet ar hynt datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy a rhai materion cysylltiedig eraill hyd at 30 Medi 2020.

Amlinellodd y swyddogion strategaethau ynni cyfredol y Cyngor, prosiectau ynni adnewyddadwy cyfredol ac ehangu posibl uchelgeisiau ynni adnewyddadwy.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y diweddariad a nododd yr amrywiol fentrau cynhyrchu ynni uchelgeisiol a chadarnhaol megis datblygiad Ffynnon Taf, a fyddai'n cynhyrchu ynni ar gyfer yr ysgol a'r ganolfan leol a datblygu Parc Eco ar dir heb ei ddatblygu ym Mryn Pica.

Cyfeiriodd un Aelod at Adran 5.5 yr adroddiad a holi sut yr amcangyfrifwyd y

Budd Carbon amcangyfrifedig o 2,323 Tunnell Carbon y flwyddyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei chylchredeg yn dilyn y cyfarfod ond eglurodd fod y ffigur wedi'i bennu gan broses gyfrifo safonol ar y cyd â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Roedd y cyfrifiad yn canolbwyntio ar yr arbedion carbon a ddefnyddir ar gyfer yr ynni a gynhyrchir yn unig, yn seiliedig ar fuddsoddiad ac nid y carbon gwreiddio wrth gyflawni'r prosiect hyd at y pwynt hwnnw. Cydnabu'r Cyfarwyddwr y byddai angen ystyried y carbon ymgyrfforiedig pe bai'r Cyngor yn honni y byddai'r prosiect yn Net Sero ynddo'i hun.

Cwestiynodd y Cynrychiolydd Allanol ar gyfer beth y byddai dŵr glaw sydd wedi'i ailgylchu yn cael ei ddefnyddio yn Ffynnon Taf. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod cynaeafu dŵr glaw yn osodiad safonol, a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio yn ysgolion y Cyngor ac mai ei bwrpas oedd fflysio'r toiledau yn yr adeiladau.

Roedd y Cynrychiolydd Allanol yn falch o nodi bod ystod o opsiynau ynni wedi'u harchwilio, megis ynni gwynt, solar a hydro. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod RhCT wedi darparu cefnogaeth i Ymddiriedolaeth y Cambrian yn Nhonypandy, i gyflawni ei gynllun hydro.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth i'r swyddogion am yr adroddiad manwl a nododd faint o waith a wnaed yn ei phortffolio Cabinet, mewn perthynas â'r agenda newid yn yr hinsawdd, megis trafnidiaeth, pwyntiau gwefru cerbydau trydan a newidiadau goleuo a wnaed ledled adeiladau'r Cyngor.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad diweddaru yma'n rhan o waith parhaus Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd;
2. Parhau â thrafodaethau parhaus gyda thrydydd partïon gyda'r bwriad o wneud y mwyaf o gynhyrchu ynni yn amodol ar gyfrifiannell ôl troed carbon terfynol Llywodraeth Cymru; a
3. Derbyn adroddiad pellach yn gynnar yn 2021 yn darparu diweddariad pellach ar y cynnydd.

## 9 Materion Brys

- Gyda chytundeb y Cadeirydd, rhoddodd Rheolwr Prosiect Rhondda Skyline, Ms M Newton, wybodaeth am gerrig milltir cynnydd allweddol y prosiect i'r Grŵp Llywio:
    - Roedd trafodaethau ar y gweill gyda CNC o ran sut y rheolir stiwardiaeth tir cymunedol, sef dyhead y Prosiect;
    - Llwyddwyd i sicrhau £238,000 o Gronfa Datblygu'r Gronfa Gweithredu ar Hinsawdd, i ddatblygu'r ffrydiau busnes canlynol:
        - Cefnogi sefydlu'r Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a'r Cytundeb Stiwardiaeth Cymunedol gyda CNC;
        - Rhaglen Biochar i edrych ar bren fel deunydd gwastraff a sut y gellir ei ddefnyddio mewn ffyrdd eraill;
        - Tai ffrâm pren a sut i adeiladu tai cynaliadwy gyda sgiliau lleol;
        - Garddwriaeth Gymunedol;
        - Menter Plen (Timber Enterprise) a datblygu safle pren yn hen safle'r bragdy yn Nhreherbert; a
        - Cerbydau Trydan a ph'un a oes galw am gronfa o gerbydau

trydan i'w ddefnyddio gan y gymuned.

- Pe bai'r mentrau uchod yn cael eu sicrhau, y bwriad oedd cynnig am £2.5M arall o gyllid i roi'r gwaith ar waith.
- Roedd gan y Gronfa Her Economi Sylfaenol danwariant sylweddol o ganlyniad i Covid-19. O ganlyniad, roedd Skyline yn gweithio gyda Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol fel un o dri chynllun peilot i edrych ar amaethyddiaeth amgylchedd rheoledig. Y nod oedd sefydlu unedau dros dro ar hen safle tapas, Treherbert ac roedd disgwyl i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

Canmolodd y Grŵp Llywio Skyline am ei waith a'r mentrau cyffrous sydd wedi'u cynllunio ar gyfer ardal uchaf Cwm Rhondda, sy'n diwallu nifer o anghenion ac uchelgeisiau.

- Hysbysodd y Cadeirydd y Grŵp Llywio y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 18 Ionawr 2021 am 2pm a dymunodd Nadolig a Blwyddyn Newydd dda i bawb.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 3.40 pm**

**Y CYNGHORYDD RHYS LEWIS**
**Cadeirydd.**